

## ***Un tro, roedd...: Defnyddio Storiâu fel Modd i Ddatblygu Llafaredd Plant Ifanc***

Amanda Jones

*Lefel 6, BA Addysg Plentynod Cynnar*

### **Crynodeb**

Bwriad y papur hwn yw ystyried y berthynas rhwng llafaredd plant ifainc ac oedolion fel cyfryngau adrodd storiâu. Ceir trafodaeth ar yr hyn a ystyrir gan y term adrodd storiâu fel proses ieithyddol a diwylliannol. Dadansoddir hefyd ystyr llafaredd drwy ganolbwyntio ar un agwedd benodol, sef datblygu siarad plant. Gosodir y drafodaeth oddi fewn i fframweithiau damcaniaethol Vygotsky a Chomsky a'r modd y maent wedi dylanwadu ar waith Speaker *et al* (2004). Bydd y papur yn trafod ymchwil Speaker *et al* (2004) drwy werthuso'n feirniadol gyhoeddiad o'u gwaith. Yn olaf, trafodir gweithgaredd sydd yn seiliedig ar ddatblygu geirfa plant ifainc.

**Geiriau Allweddol:** Llythrennedd cynnar, storiâu, llafaredd

### **Abstract**

This paper plans to consider the relationship between the oracy of young children and adults as storytelling media. There will be a discussion on what is understood by the term storytelling as a linguistic and cultural process. The meaning of oracy will also be analysed by concentrating on one specific aspect, namely the development of children's talk. The discussion is set within the theoretical frameworks of Vygotsky and Chomsky and the way they have influenced the work of Speaker *et al* (2004). The paper will discuss the research of Speaker *et al* by critically evaluating a publication of their work. Finally, an activity will be discussed which is based on developing the vocabulary of young children.

**Key words:** Early literacy, stories, oracy

## Rhagarweiniad

Bydd y papur hwn yn trafod datblygiad llafaredd yn y blynyddoedd cynnar drwy adrodd storïau. Cychwynnir gyda thrafodaeth fer ar y broses o gaffael iaith mewn plant ifainc. Yna trafodir ystyr adrodd storïau i blant ac yna ystyr llafaredd drwy ganolbwyntio ar un agwedd benodol, sef datblygu siarad plant. Eir ymlaen i ystyried sut mae adrodd storïau i blant ifainc yn fanteisiol er mwyn datblygu eu hiaith. Trafodir un darn o waith ymchwil penodol gan Speaker *et al* (2004) sy'n cytuno â damcaniaethau Vygotsky a Chomsky ac ystyrir darganfyddiadau'r papur ymchwil. Yn rhan olaf y gwaith, trafodir gweithgaredd ymarferol a luniwyd gan awdur y papur hwn er mwyn hybu datblygiad ieithyddol plant ifainc yng nghyd-destun iaith a storïau.

## Datblygiad iaith plant

Mae damcaniaethau Chomsky (1968) wedi dylwanwadu ar y ddealltwriaeth cyfoes o iaith plant. Gwelir, yn dilyn syniadau Chomsky, bod plant yn meddu ar sgiliau cynhenid, o'u genedigaeith, i drin iaith. Mae Gopnik *et al* yn hawlio bod "babies know important things about language from the time they are born" (2000:23). Bydd plant ifainc, cyn eu bod yn bedair oed, yn ôl Siencyn a Richards, yn defnyddio iaith 'i holi, disgrifio a gorchymyn a byddant yn defnyddio rhagenwau (fi, ni, nhw) ac arddodiaid (dan, wrth), yn siarad am y gorffennol ac yn cynnig syniadau' (2010: 155). Rhan bwysig o hyrwyddo'r broses datblygiad iaith yw iaith oedolion a'r hyn mae oedolion yn ei wneud ag iaith wrth iddynt ymwneud â phlant.

## Pwysigrwydd stori

Wrth gychwyn y drafodaeth, rhaid ystyried yn gyntaf ystyr y gair storïau. Dywed Whitehead (2002: 28) "stories are basically about the 'what' of human experience and thinking: what I believe, what happens to me, what I know, what I feel". Mae ef, felly, yn awgrymu bod storïau yn gosod pwyslais ar y 'beth' sy'n gasgliad o brofiadau a digwyddiadau go iawn neu'n ddychmygol. Y naratif, er hynny, yw'r hyn sydd yn cynrychioli rhywbeth llafar, ysgrifenedig neu weledol sy'n ymwneud â digwyddiadau'r stori (Whitehead, 2002). Yn ôl Whitehead eto "narrative is the 'how' of story and is always focused on a telling of some kind", (2002: 30).

Mae angen nodi'r pwysigrwydd bod elfennau o ddatblygiad llythrennedd plant, er enghraifft, siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn gysylltiedig gyda'i gilydd (Whitehead, 2010; Makin a Whitehead, 2004; Whitehead, 2002; Grainger, 1997). Dywed Whitehead (2002: 52) "literacy is a sophisticated extension of communication skills and spoken language" a chred nifer bod llafaredd yn ymwneud â siarad a gwrando (Whitehead, 2002; Godwin a Perkins, 1998; Nutbrown, 1997). Mae Siencyn a Richards hefyd yn nodi ei bod "hi bron yn amhosibl dysgu darllen ac ysgrifennu – gweithgareddau diwylliannol cymhleth iawn – heb yn gyntaf ddeall iaith a defnyddio iaith" (2010: 162). Yn ôl Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008):

"Er mwyn siarad, mae angen i blant gynhyrchu seiniau, deall datblygiad iaith a datblygu'r gallu i siarad at wahanol ddibenion a chyda gwahanol gynulleidfaoedd. Trwy siarad bydd plant yn dysgu ac yn gwneud synnwyr o'u byd."

(APADGOS, 2008: 6).

Dywed nifer bod gwrando ar storïau yn brofiad pleserus i blant ac yn rhan bwysig o'u datblygiad yn gyffredinol (Speaker *et al.*, 2004; Drury *et al.*, 2000; Godwin a Perkins, 1998). Mae Rogoff (2003) yn nodi arwyddocâd cymdeithas a diwylliant, gan gynnwys chwedlau a storïau i ddatblygiad plant ac mae gennym, yng Nghymru, hen chwedlau megis Y Mabinogi sydd yn cael eu hailadrodd ar gyfer pob cenhedlaeth newydd (Hopwood, 2011). Awgryma Whitehead (2002) fod sesiynau o adrodd storïau i blant yn rhywbeth hudolus oherwydd nad oes llyfrau na lluniau sy'n amharu ar y rhyngweithiad rhwng y gwrandawyr a'r stori. Dywed Hislam (2005: 100) fod "oral storytelling is the activity closer in kind to children's play than reading from books". Yn ogystal â hyn, mae plant yn mwynhau clywed eu hoff storïau yn cael eu hailadrodd a bod hyn yn holl bwysig iddynt (Drury *et al.*, 2000; Godwin a Perkins, 1998). Trwy ail adrodd storïau, caiff blentyn gyfle i berchnogi'r stori a chael gafael ar y stori trwy ddod i adnabod y cymeriadau a'r digwyddiadau (Drury *et al.*, 2000). Drwy adrodd storïau dro ar ôl tro, bydd plant yn ymuno yn y stori a datblygu a dysgu geirfa newydd wrth wneud (Whitehead, 2010; Hislam, 2005; Drury *et al.*, 2000).

Yn ôl Whitehead (2010) siarad neu iaith ar lafar yw'r elfennau llythrennedd cyntaf mae plentyn yn eu dysgu. Cytuna hyn â Nutbrown (1997) sy'n awgrymu bod gan iaith lafar effaith mawr ar ddysgu llythrennedd a datblygiad plant, yn enwedig ymwybyddiaeth seinyddol ac adrodd storïau. Mae Nutbrown yn mynnu bod yr elfennau hyn yn ffactorau cryf eu dylanwad ar ddatblygiad iaith lafar plant ifanc.

Mae ymchwil yn awgrymu'n gadarn bod storïau yn hanfodol i'r broses o ymestyn geirfa plant ac o gyflwyno geirfa newydd iddynt ac, ymhellach, mae'n fodd o'u cynorthwyo i ddeall strwythur iaith (Whitehead, 2010; Brock a Rankin, 2008; Grugeon *et al.*, 2005; Makin a Whitehead, 2004; Whitehead, 2002). Mae strwythur a phatrwm i stori ac mae'r strwythur hyn, sef cychwyn, canol a diwedd, cynllun a digwyddiadau, cymeriadau ac amcanion yn ddibynadwy a rhagweladwy i blant, hynny yw, mae'n strwythur cyffredin i bob stori. (Brock a Rankin, 2008). Cytuna Grugeon *et al.* (2005) wrth awgrymu bod strwythur y storïau maent yn eu clywed yn helpu plant i ragweld sut mae storïau yn gweithio. Cred Brock a Rankin (2008) hefyd bod plant yn gallu dysgu sut y defnyddir iaith a sut mae iaith yn datblygu a bod modd cyflwyno geirfa newydd a strwythurau gramadegol cywir. Hefyd maent yn rhoddi sylw i rythm ac ailadrodd, digwyddiadau, geiriau ac ystyron (Brock a Rankin, 2008).

Elfen arwyddocaol, wrth ystyried storïau yw rôl yr oedolyn yn y broses o adrodd storïau i blant. Dywed rhai fod angen i oedolion fodelu sgiliau iaith drwy adrodd storïau ac y dylent ddatblygu eu sgiliau fel adroddwyr a storiwyr hyderus eu hunain (Whitehead, 2010; APADGOS, 2008; Grugeon *et al.*, 2005).

Er nad yw Harrett a Benjamin (2005) wedi gwneud gwaith ymchwil yn benodol ynglŷn ag adrodd storïau, dywedant nad yw rhai plant yn ystyried stori sydd wedi ei hadrodd heb i'r adroddwr ddefnyddio llyfr, yn stori go iawn. Er hynny, awgrymant hefyd ei bod yn well gan bum deg y cant o blant glywed storïau yn cael eu hadrodd gan eu bod wedi arfer clywed storïau yn cael eu hadrodd iddynt yn aml yn y dosbarth (Harrett a Benjamin, 2005).

Yn ogystal â datblygu iaith, gwelir plant yn datblygu sgiliau gwrando wrth glywed storïau yn cael eu hadrodd (Harrett a Benjamin, 2005; Speaker *et al.*, 2004) a datblygu sgiliau disgwyliad a rhagfynegiad (Dawkins ac O'Neill, 2011). Cytuna hyn â'r hyn a nodwyd gan Wells (1987, dyfynnwyd yn Nutbrown, 1997) sef ei bod yn bwysig i blant wrando ar storïau yn cael eu hadrodd yn ogystal â chael storïau yn cael eu darllen iddynt a bod y profiadau hyn yn wahanol. Anghytuna Walsh (2003) ynglŷn ag adrodd storïau a'r defnydd o lyfrau gan nodi pwysigrwydd lluniau fel modd i gyfoethogi'r

naratif, rhediad, strwythur ac o safbwynt datblygu iaith, yn enwedig i blant ifainc. Dywed Walsh (2003) a Harrett a Benjamin (2005) bod plant sydd yn gweld lluniau mewn llyfrau yn fwy tebygol o ymateb yn well i'r storïau. Er hynny, pwysleisia Harrett a Benjamin (2005) hefyd "the ability to visualize is generally regarded as important for developing imagination and illustrates the importance of the oral story for these particular children" (Meek, 1991; Grainger 1995 dyfynnwyd yn Harrett a Benjamin, 2005: 39). Cytuna Whitehead (2010) drwy gynnig, wrth i blant ddefnyddio eu dychymyg, bod angen iddynt ddefnyddio geirfa, mynegiant wyneb, cyswllt llygaid, tôn, emosiwn a newidiadau lleisiol a bod y rhain yn elfennau sylfaenol o ran dysgu ac o ran datblygiad iaith.

Dywed rhai y rhoddir pwyslais ar ddarlennu ac ysgrifennu trwy gwrwicwlwm mewn lleoliadau addysgol (Dawkins ac O'Neill, 2011; Drury *et al*, 2000), a bod yna bwyslais ar gynnig cyfleoedd i blant i glywed storïau a chyfleoedd i'r plant adrodd storïau (Whitehead, 2010; Grugeon *et al*, 2001; Godwin a Perkins, 1998). Trwy adrodd storïau eu hunain neu ailadrodd stori maent wedi ei Chlywed yn flaenorol, bydd plant yn atgyfnerthu eu sgiliau cof; digwyddai hyn wrth iddynt ddefnyddio geirfa maent wedi clywed eraill yn eu defnyddio (Speaker *et al*, 2004; Godwin a Perkins, 1998). Awgryma rhai fod cynnig cyfleoedd i blant adrodd eu storïau eu hunain yn hybu sgiliau llythrennedd, a hefyd yn cynnig cyfleoedd iddynt fod yn greadigol a defnyddio eu dychymyg (Harrett a Benjamin, 2005; Speaker *et al*, 2004).

Yn ôl Dawkins ac O'Neill (2011) ychydig o gyfleoedd y rhoddir i blant wedi iddynt ddatblygu i fod yn ysgrifenyddwr a noda APADGOS (2008) fod angen nifer o gyfleoedd ar blant i siarad a gwrandao ar oedolion wrth gadw cyswllt llygad. Yn ôl Moyles (2005) mae cael cysylltiad ag iaith, a sut i'w ddatblygu, yn ddibynnol ar nifer mawr o gyfleoedd a roddir i blant i siarad a rhannu gwybodaeth. Dywed Vygotsky (1978, dyfynnwyd yn Whitehead, 2010):

"Adults make a special contribution to children's learning and development. The zone of proximal development is the key area of the child's maturing and emerging abilities. This is where, with adult support, a child's language and thinking are most fruitfully developed."

(Vygotsky 1978, dyfynnwyd yn Whitehead, 2010: 95).

Gellir yn deg casglu felly fod rôl yr oedolyn yn hanfodol mewn datblygiad iaith plentyn (Whitehead, 2010; Campbell, 1996). Cytuna APADGOS (2008) gan ddweud bod oedolion sydd yn modelu ymddygiad da yn annog plant mewn trafodaethau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u profiadau a geirfa amrywiol. Cred Chomsky (1965, dyfynnwyd yn Whitehead, 2010; Siencyn, 2008) fod gan bawb alluoedd greddfoll ar gyfer datblygu iaith a elwir yn Ddyfais Caffael Iaith. Er bod Chomsky yn amwys ynghylch maint dylanwad oedolion, mae'n cydnabod bod angen oedolion er mwyn modelu a datblygu iaith y plentyn. Cytuna Campbell (1996) fod oedolyn yn modelu geirfa newydd i blant ond eu bod hefyd yn cyfleu sut mae creu ac adeiladu stori.

### **Gwaith Speaker *et al*, 2004**

Cynhaliodd Speaker *et al* (2004) waith ymchwil ar ddatblygiad iaith plant gan ddewis pum plentyn amrywiol o grŵp gallu uwch o ran iaith. Amrywia oed y plant o dair i bum mlwydd. Dewiswyd pedwar testun a deg llyfr i bob testun ar gyfer adrodd storïau yn wythnosol i'r plant. Lluniwyd cwestiynau gan yr ymchwilwyr ar gyfer

pob stori er mwyn hybu trafodaeth a sgwrs; defnyddwyd cwestiynau agored ar gyfer ysgogi'r meddwl ac er mwyn hwyluso ymatebion llawnach gan y plant. Er mwyn cael dealltwriaeth o alluoedd ieithyddol y plant, cymerwyd esiamplau o iaith a lleferydd y plant cyn ac ar ôl yr astudiaeth (Speaker *et al*, 2004). Yr oedd y plant yn chwarae'n rhydd ac yn edrych ar ddarluniau dilynianol ar gardiau ac adrodd am yr hyn a welsant (Speaker *et al*, 2004).

Cynhaliwyd y sesiynau dros gyfnod o bedair wythnos gan ddilyn y themâu: teimladau, gwyliau, iechyd ac adrodd storiâu a dewiswyd deg llyfr yr wythnos wrth ddilyn y pynciau hyn (Speaker *et al*, 2004). Yn dilyn, cynhaliwyd sesiynau unigol gyda phob plentyn yn ail edrych ar luniau a'i recordio am gyfnod o tua phum munud ar hugain. Dadansodwyd y wybodaeth ar gyfer dehongli gwahanol gydrannau o iaith a lleferydd (Speaker *et al*, 2004).

Cynhaliodd Speaker *et al* (2004) waith ymchwil ynglŷn â datblygiad iaith plant ifainc wrth ystyried adrodd storiâu. Roeddent am ymchwilio i ansawdd a datblygiad ieithyddol plant drwy adrodd storiâu (Speaker *et al*, 2004). Yn dilyn yr ymchwil, awgrymant fod plant sydd yn gyfarwydd â chlywed storiâu yn cael eu hadrodd wrthynt yn arddangos gwelliannau yn sgiliau iaith. Yn ogystal, dywedant. (2004: 11) "that increased exposure to storytelling may foster emergence of more advanced stages of language development" a bod adrodd storiâu i blant ifainc yn gwella gramadeg, geirfa, hyd yr ymadrodd, ffurfio brawddegau a hefyd yn gwella eu sgiliau gwranddo.

Wrth recordio, tapio a thrawsysgrifio'r hyn a ddywed y plant, defnyddir y wybodaeth yma i ddadansoddi amryw o wahanol elfennau o iaith a lleferydd gan gynnwys: cystrawen sef trefn geiriau; morffoleg sef y ramadeg; semanteg sef yr eirfa; a phragmatiaeth sef defnydd o iaith. Er mwyn pwysu a mesur y gwelliannau hyn, defnyddia'r ymchwilwyr wahanol systemau yn ystod y broses ac ânt ymlaen:

"A sentence structure analysis was performed to assess syntax and to analyze morphology. An involved analysis of Brown's fourteen grammatical morphemes was used to determine Mean Length of Utterance (MLU). Templin's Type Token Ratio (TTR) was utilized to determine semantic content (Templin, 1957)."

(Speaker *et al*, 2004: 5)

Wrth ddilyn y systemau dadansoddi uchod daethant i'r casgliad bod pob plentyn yn dangos cynnydd mewn lefelau cystrawen, marciau morffolegol, hyd yr ymadrodd a chynnwys y semanteg. Er hynny, mae'n rhaid ystyried mai sampl fach o bum plentyn a ddewiswyd a bod rhagfarn o blaid y plant hyn. Mae'n bwysig cofio hefyd mai dim ond wyth a ddewiswyd yn wreiddiol ac efallai dylid ystyried cynnal y gwaith ymchwil yma gyda niferoedd uwch o blant. Gellid hefyd awgrymu, efallai y byddai'r plant wedi datblygu'u hiaith i'r lefelau nesaf heb ymarferion yr astudiaeth gan mai nhw oedd y plant ar lefel ieithyddol uwch cyn cychwyn.

Mae angen ystyried hefyd wrth gynnal profion mewn ystafell gyda chamera fideo a thapiau y gall plentyn deimlo yn anesmwyth, ansicr ac ofnus. Felly hefyd gall y plentyn hwn deimlo'n fwy hyderus wrth gael ei recordio am yr ail dro gan ei fod wedi profi hyn yn flaenorol ac felly wedi dod yn fwy hyderus wrth ymateb i gwestiynau â'u hateb ac efallai, o'r herwydd, ddefnyddio brawddegau sydd yn fwy o hyd wrth sgwrsio. Gwelir tebygrwydd yma i waith ymchwil Harrett a Benjamin (2005) wrth iddynt awgrymu y gellir effeithio ar y safonau drwy'r ffyrdd a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth, er enghraifft, defnyddio ystafell anghyfarwydd a defnyddio offer clywedol (Harrett a Benjamin, 2005). Er i'r ymchwil bwysleisio gwerth adrodd storiâu

wrth blant, nid yw'r gwaith ymchwil yn eglur o ran sut adroddir storïau wrth blant, nid yw'n eglur a adroddir storïau wrth blant wrth ddarllen y storïau yn uchel o lyfrau, neu a adroddir storïau heb ddefnyddio llyfr.

Dynoda Moyles (2005) fod plant yn meddwl a dysgu trwy chwarae a thrwy lunio storïau yn y meddwl. Dywed hefyd fod adrodd storïau yn "one of the most fundamental means of making meaning, as such it is an activity that pervades all aspects of learning" (2005: 25).

### **Gweithgaredd stori**

Yn dilyn canfyddiadau Speaker *et al* (2004) awgrymwyd gweithgaredd i'w gynnal gyda phlant ifainc sy'n cynnwys adrodd stori er mwyn datblygu prosesau caffael iaith y plant. Cychwynnwyd y gweithgaredd trwy ystyried dealltwriaeth a datblygiad iaith y plant cyn dewis llyfr i adrodd wrth blant dair oed. Adroddwyd stori heb ddefnyddio'r llyfr er mwyn cadw cyswllt llygad gyda'r plant. Dewiswyd y llyfr 'Hugan Fach Goch' (Amery a Cartwright, 2009) am iddo fod yn gyfarwydd i'r plant gan iddynt glywed y stori yn y diwrnodau cynt. Hefyd, dewiswyd y stori hon gan fod yr eirfa a ddefnyddir yn sôn am rannau o'r pen, sef clustiau, llygaid a dannedd ac felly yn ymestyn geirfa'r plant, fel yr awgryma Speaker *et al* (2004). Drwy adrodd stori wrth blant heb ddefnyddio llyfr gellir hybu trafodaeth a sgwrs trwy ofyn cwestiynau agored ac ymestyn yr eirfa lle boin bosibl gan nad yw'r llyfr yn amharu ar y broses o adrodd y stori. Yn ystod y gweithgaredd mae angen modelu a sgaffaldio geirfa newydd er mwyn ymestyn geirfa a dealltwriaeth. Yn ôl Speaker *et al* (2004) dylid adrodd y storïau hyn yn aml er mwyn i'r plant ennill hyder a chael hwyl yn y broses. Mae'r llyfr hefyd yn ailadrodd brawddegau sydd yn atgyfnerthu geirfa ac yn helpu'r plant i gofio ac adrodd y geiriau mewn storïau eu hunain. Dywed Vygotsky (1978, dyfynnwyd yn Whitehead, 2010) fod modelu iaith i blant yn codi ymwybyddiaeth o eirfa, a'u codi i lefel uwch wrth iddynt glywed eraill yn defnyddio iaith.

Wedi adrodd y stori i'r plant, dangoswyd iddynt focs ac ynddo ddillad a phropiau cysylltiedig â'r stori er mwyn iddynt ailadrodd y stori drwy chwarae rôl. Rhoddwyd cyfle a dewis i'r plant ymuno mewn chwarae rôl neu chwarae dychmygus ac actio'r stori. Daw hyn â'r stori yn fyw ac yn weledol i'r plant. Dywed Brock a Rankin (2008):

"By providing prompts, scaffolding and asking key questions, adult and older children can assist in developing children's vocabulary and concepts. By posing problems and challenges you can encourage children to use their imagination and enhance their storytelling skills."

(Brock a Rankin, 2008: 68)

Cytuna hyn â Makin a Whitehead (2004) ac awgrymodd fod plant yn cael eu hannog i adrodd storïau pan fyddent yn defnyddio adnoddau fel pypedau, mygydau, hetiau a ffigurau ffelt a dynoda APADGOS (2008) bwysigrwydd chwarae dychmygus er mwyn annog plant i siarad a chyfathrebu ag eraill.

Trwy chwarae rôl, câi blant berchnogaeth ar y stori ac wrth ailadrodd maent yn dod i adnabod y cymeriadau a'r digwyddiadau (Drury *et al*, 2000). Pwysleisia Speaker *et al* (2004) bwysigrwydd adrodd storïau yn rheolaidd ac felly, gellir gwneud y gweithgaredd hwn yn ddyddiol wrth hefyd ystyried storïau eraill wrth oedolion neu blant. Wrth i'r oedolyn ddatblygu'n adroddwr storïau hyderus, gall y plant ddatblygu eu hiaith fynegiannol trwy ddilyn yr hyn maent yn ei weld a'i brofi yn ddyddiol.

## Casgliad

I grynhoi, daethpwyd i'r casgliad bod adrodd storiâu wrth blant yn fodd defnyddiol o hybu sgiliau siarad yn y blynyddoedd cynnar ac i gynorthwyo eu datblygiad iaith yn gyffredinol. Cytunir â Speaker *et al* (2004) bod adrodd storiâu yn elfen bwysig yn y datblygiad cyffredinol hwn. Trwy adrodd storiâu yn gyson modelir geirfa newydd i blant, ac wrth ailadrodd gellir ymestyn ac ychwanegu at eu sgiliau siarad. Cefnogir hyn trwy gynnig cyfleoedd i blant ymgymryd mewn chwarae dychmygus a chwarae rôl, yn dilyn clywed stori.

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i Dr. Siân Wyn Siencyn ac Ann-Marie Gealy am awgrymu fy mod yn cyhoeddi'r traethawd hon ac am eu cymorth a chyngor yn ystod y tair blynedd diwethaf.

## Cyfeiriadau

- Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2008). *Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Amery, H. a Cartwright, S. (2009). *Hugan Fach Goch*. Caerdydd: Gwasg y Dref Wen
- Brock, A. a Rankin, C. (2008). *Communication Language and Literacy from Birth to Five*. London: Sage Publications. [e-lyfr]. Ar gael yn [http://www.dawsonera.com/depp/reader/protected/direct/AbstractView,title.\\$ReaderFunctions eBookView.sdirect?state:reader/protected/AbstractView=ZH4sIAAAAAAAAAAFvzloG1XJiBgYGJkYG1JLMk\]5WBNTWzOCmvhIHX0tzCOMLE0sjAzMTQspyDAYcMAB6dWcdDAAAA](http://www.dawsonera.com/depp/reader/protected/direct/AbstractView,title.$ReaderFunctions eBookView.sdirect?state:reader/protected/AbstractView=ZH4sIAAAAAAAAAAFvzloG1XJiBgYGJkYG1JLMk]5WBNTWzOCmvhIHX0tzCOMLE0sjAzMTQspyDAYcMAB6dWcdDAAAA) [Darllenwyd 15 Rhagfyr 2011]
- Campbell, R. (1996). *Literacy in Nursery Education*. Stoke on Trent: Trentham Books
- Chomsky, N. (1968). *Language and Mind*. New York: Harcourt, Brace & World
- Dawkins, S. ac O'Neill, M. (2011). 'Teaching Literate Language in a Storytelling Intervention', *Australian Journal of Language and Literacy*, 34, 3, Hydref, 2011, tt.294–307. [Ar lein]. Ar gael yn: <http://web.ebscohost.com/ehost/pdfviewer/pdfviewer?sid=bc7bc868-5e8c-45fb-89d5-90823ba5561b%40sessionmgr10&vid=6&hid=15> [Darllenwyd Ionawr 2 2012]
- Drury, R., Miller, L. a Campbell, R. (2000). *Looking at Early Years Education and Care*. London: David Fulton Publishers
- Godwin, D. a Perkins, M. (1998). *Teaching Language and Literacy in the Early Years*. London: David Fulton Publishers
- Gopnik, A., Meltzoff, A. a Kuhl, P. (2000). *How Babies Think: the science of childhood*. London: Weidenfeld & Nicolson
- Grainger, T. (1997). *Traditional Storytelling: In The Primary Classroom*, Leamington Spa: Scholastic Ltd
- Grugeon, E., Dawes, L., Smith, C. a Hubbard, L. (2005). *Teaching Speaking and Listening in the Primary School*. London: David Fulton, 2005. [e-lyfr]. Ar gael yn [http://web.ebscohost.com/ehost/ebookviewer/ebook/nlebk\\_125381\\_AN?sid=b95b7c77-9404-4dc5-9650-851c67f7d96f@sessionmgr112&vid=1](http://web.ebscohost.com/ehost/ebookviewer/ebook/nlebk_125381_AN?sid=b95b7c77-9404-4dc5-9650-851c67f7d96f@sessionmgr112&vid=1) [Darllenwyd Rhagfyr 4 2011]
- Harrett, J. a Benjamin, T. (2005). 'What is a Real Story? Investigating the Perceptions of Key Stage One children', *Early Years: Journal of International Research & Development*, 25, 1, Mawrth, 2005, tt.31–42. [Ar lein]. Ar gael yn <http://web.ebscohost.com/ehost/pdfviewer/pdfviewer?sid=5a641e3f-e29f-4e89-895f-b1876b64886a%40sessionmgr14&vid=47&hid=9> [Darllenwyd Rhagfyr 15 2011]
- Hislam, J. (2005). 'Story-making, play and gender' yn Moyles, J. *The Excellence of play*. Milton Keynes: Open University Press. tt.98–110
- Hopwood, M. (2011). *Straeon o'r Mabinogi*. Llandysul: Gwasg Gomer
- Makin, L. a Whitehead, M. (2004). *How to Develop Children's Early Literacy: A Guide for Professional Carers and Educators*. London: Paul Chapman Publishing
- Meek, M. (1991). *On Being Literate*. London: The Bodley Head
- Moyles, J. (2005). *The Excellence of Play*. Maidenhead: Open University [e-lyfr]. Ar gael yn [http://reader.eblib.com/\(S\(jnsolypharazc0ne3ql2acio\)\)/Reader.aspx?p=292137&o=116&u=tristujona1&t=1326799262&ch=551853680728C0C5B63A848F8C769D95383B547F&s=11781820&ut=265&pg=1&r=img&c=-1&pat=n#](http://reader.eblib.com/(S(jnsolypharazc0ne3ql2acio))/Reader.aspx?p=292137&o=116&u=tristujona1&t=1326799262&ch=551853680728C0C5B63A848F8C769D95383B547F&s=11781820&ut=265&pg=1&r=img&c=-1&pat=n#) [Darllenwyd Ionawr 2 2012]

- Nutbrown, C. (1997). *Recognising Early Literacy Development: Assessing Children's Achievements*. London: Paul Chapman Publishing
- Rogoff, B. (2003). *The Cultural Nature of Human Development*. Oxford: Oxford University Press
- Siencyn, S.W. (2008). *Y Plentyn Bach: Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar*. Caerfyrddin: Coleg Y Drindod
- Siencyn, S.W. a Richards, C. (2011). 'Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu yn y Cyfnod. Sylfaen' yn Siencyn, S. W. (gol) *Y Cyfnod Sylfaen: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. tt.153–176. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg Prifysgol y Drindod
- Speaker, K.M., Taylor, D. a Kamen, R. (2004). 'Storytelling: Enhancing Language Acquisition in Young Children', *Education*, 125, 1, Hydref, 2004, tt.3–14. [Ar lein]. Ar gael yn <http://web.ebscohost.com/ehost/pdfviewer/pdfviewer?sid=5a641e3f-e29f-4e89-895f-b1876b64886a%40sessionmgr14&vid=41&hid=9> [Darllenwyd Rhagfyr 11 2011]
- Walsh, M. (2003). 'Reading Pictures: What Do They Reveal? Young Children's Reading of Visual Texts' *Reading, Literacy and Language*, 37, 3, Tachwedd, 2003, tt.123–130. [Ar lein]. Ar gael yn <http://web.ebscohost.com/ehost/pdfviewer/pdfviewer?sid=5308b25c-68d1-40ef-b344-608632353411%40sessionmgr10&vid=27&hid=17> [Darllenwyd Ionawr 6 2012]
- Whitehead, M. (2002). *Developing Language and Literacy with Young Children*. London: Sage, 2002. [e-lyfr]. Ar gael yn [http://reader.eblib.com/\(S\(zu4ehcghz50sw4xbubfdjk5o\)\)/Reader.aspx?p=254615&o=116&u=tristujona1&t=1326193394&h=4095E47BD92D669864622278C9C05DE2745229CF&s=11731668&ut=265&pg=1&r=img&c=-1&pat=n#](http://reader.eblib.com/(S(zu4ehcghz50sw4xbubfdjk5o))/Reader.aspx?p=254615&o=116&u=tristujona1&t=1326193394&h=4095E47BD92D669864622278C9C05DE2745229CF&s=11731668&ut=265&pg=1&r=img&c=-1&pat=n#) [Darllenwyd Rhagfyr 4 2011]
- Whitehead, M. (2010). *Language and Literacy in the Early years 0–7*. London: Sage Publications